Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Pobl anabl a'r celfyddydau

## Adroddiad ynglŷn â'r ffordd o wneud y celfyddydau yn fwy poblogaidd gan bobl anabl

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan '**Richie Turner and Associates**'. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Ehangu Ymgysylltiad (Llawn)**.'

**Hydref 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae geiriau anodd mewn glas trwm y tro cyntaf maen nhw'n cael eu defnyddio. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 22**.

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad** ..... **4**

**Ynglŷn â ni** ..... **5**

**Y pethau wnaethon ni** ..... **8**

**Sut y gwnaethon ni'r pethau hyn** ..... **9**


**Y pethau y daethon ni i wybod** ..... **10**

**Beth ddylai ddigwydd nesaf** ..... **17**

**Syniadau i wneud pethau'n well** ..... **18**

**Geiriau anodd** ..... **22**

# Cyflwyniad




Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn gwneud prosiect mawr.



Mae arnyn nhw eisiau gwneud celfyddydau Cymru yn fwy poblogaidd. Yn enwedig gyda grwpiau **amrywiaethol** o bobl.


> Mae **amrywiaethol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wneud gwahanol bethau.



Nid yw celfyddydau Cymru yn boblogaidd gan rai grwpiau **amrywiaethol**. Er enghraifft, gan bobl anabl.



Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** am ddod i wybod pam.



Hawdd ei Ddeall

Pobl anabl a'r celfyddydau

Adroddiad ynglŷn â'r ffordd o wneud y celfyddydau yn fwy poblogaidd gan bobl anabl

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan '**Richie Turner and Associates**'. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Ehangu Ymgysylltiad (Llawn)**

**Hydref 2021**

Mae'r ddogfen hon yn sôn am y pethau y daethon ni i wybod.

# Ynglŷn â ni



Ni yw ‘**Richie Turner and Associates**’. Mae pump ohonon ni.



Rydyn ni’n dda am siarad â grwpiau **amrywiaethol**. Oherwydd ein bod yn deall eu hanghenion.



Richie Turner oedd y prif berson oedd yn rhedeg y prosiect hwn. Fe ddarllenodd yr holl wybodaeth a’i ysgrifennu.



Siaradodd Mary Allen â phobl oedd yn **cyfathrebu’n ddieiriau**.



Mae pobl sy’n **cyfathrebu’n ddieiriau** yn bobl sydd ddim yn siarad. Er enghraifft, efallai y byddan nhw’n rhoi gwybodaeth i chi trwy ddefnyddio symbolau. Neu trwy ddefnyddio offer arbennig.



Mae Mary yn arbennig o dda am weithio gyda phobl sy’n **cyfathrebu’n ddieiriau**.



Siaradodd Trevor Palmer â phobl anabl a phobl ag anabledd dysgu.



Mae Trevor yn berson anabl. Felly mae’n deall sut beth yw bod yn berson anabl.




Siaradodd Jonny Costen â’r **bobl fyddar a’r bobl sydd wedi colli eu clyw**.




Mae Jonny yn **fyddar**. Felly mae’n deall sut beth yw bod yn fyddar a cholli clyw.




Nid Saesneg yw iaith gyntaf Jonny. Ond mae’n gallu siarad yr iaith.



Gwnaeth Lyndy Cooke yn siŵr bod pawb yn gwneud gwaith da ar y prosiect.

# Y pethau wnaethon ni


Byddar

Fe siaradon ni â phobl anabl. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n **fyddar ac sydd wedi colli eu clyw**, yn anabl, yn bobl ag anabledd dysgu, a phobl **niwroamrywiol** sy'n byw yng Nghymru.



Mae pobl **niwroamrywiol** yn bobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd amrywiol.



Fe ofynnon ni i bobl anabl beth oedd yn eu rhwystro rhag mynd i ddigwyddiadau celfyddyd a diwylliant.



Fe ofynnon ni iddyn nhw am syniadau ynghylch ffyrdd o wneud y celfyddydau Cymraeg yn fwy **cynhwysol**.



Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a bod gan bawb gyfle teg.

# Sut y gwnaethon ni'r pethau hyn




Oherwydd y pandemig, dim ond ar y ffôn roedden ni'n gallu siarad â phobl. Neu ar alwadau fideo.



Ni wnaethon ni fedru siarad â chymaint o bobl ag y buasen ni wedi hoffi.



Ond fe wnaethon ni gyfweld â 93 o bobl er hynny. Ac fe wnaethon ni arolygon ar-lein gyda 56 o bobl.




**Roedd ein harolygon gyda:**

- phobl anabl
- mudiadau anabledd
- teuluoedd a gofalwyr pobl anabl.




Fe siaradon ni â phobl yn Gymraeg, yn Saesneg a thrwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

# Y pethau y daethon ni i wybod

## Gall mynd i ddigwyddiadau fod yn anodd




- Nid yw llawer o ddigwyddiadau yn **hawdd gwneud pethau** ynddyn nhw.

> Mae **hawdd eu gwneud** yn cynnwys llawer o wahanol bethau. Fel symud o un lle i'r llall, defnyddio pethau a deall pethau sy'n cael eu dweud neu eu hysgrifennu.



- Gall neilltuo lle fod yn anodd. Ac mae gwybodaeth **hawdd ei deall** yn anodd dod o hyd iddi.



- Mae'n anodd dod i wybod a yw digwyddiad yn **hawdd symud o'i gwmpas** ac yn **hawdd ei ddeall**.



- Nid yw llawer o leoliadau yn **gynhwysol**. Er enghraifft, dydyn nhw ddim yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.



- Nid yw staff yn deall anghenion pobl anabl.

## Mae pobl anabl yn cael profiadau gwael

Mae profiadau gwael mewn digwyddiadau yn troi pobl oddi ar mynd eto. Er enghraifft:




- Geiriau mewn amgueddfeydd yn rhy anodd i'w darllen.



- Methu gweld cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain. Na darllen y capsiynau.



- Dolenni clywed ddim yn gweithio.



- Adeiladau ddim yn **hawdd symud o'u cwmpas** ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Yn enwedig ar gyfer cadeiriau olwyn mwy.



- Lleoliadau yn rhy swnllyd a phrysur.




- Cyrraedd a gweld nad yw'r digwyddiad yn **hawdd symud o'i gwmpas**.  Hyd yn oed pan y dylai fod.

## Digwyddiadau wedi'u cynllunio'n wael

Dywedodd pobl anabl wrthyn ni nad yw digwyddiadau **hawdd symud o'u cwmpas** wedi'u cynllunio'n dda.

**Er enghraifft:**



- Dim ond ar rai adegau y mae digwyddiadau **hawdd symud o'u cwmpas** yn cael eu cynnal. Fel yn  ystod y dydd. Neu ar benwythnosau.



- Nid yw hynny'n ddefnyddiol i bobl sydd angen neu ag eisiau mynd ar adegau eraill.



- Er enghraifft, pan fydd cefnogaeth a chludiant ar gael.



Nid yw lleoliadau'n cynllunio ar gyfer grwpiau sydd â mwy nag un anabledd. Er enghraifft, mae digwyddiadau ble mae Iaith Arwyddion Prydain ar gael a digwyddiadau sydd er budd pobl ag **awtistiaeth** yn cael eu cynnal ar wahân. Felly ni all ffrindiau sydd ag anghenion gwahanol fynd gyda'i gilydd.



**Awtistiaeth** yw'r gair byr am Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Pan fydd awtistiaeth ar rywun byddwn yn dweud ei fod yn awtistig.

## Mae problemau cludiant



Nid yw rhai pobl yn mynd i ddigwyddiadau oherwydd ei bod yn anodd cyrraedd yno.




Weithiau nid yw cludiant cyhoeddus yn mynd i'r lleoliad. Neu mae'n rhy ddrud.



Mae'n anodd cael cludiant **hawdd ei ddefnyddio**. Fel tacsis.



Mae teithio i ddigwyddiad yn cymryd llawer o gynllunio.



Nid yw’n werth mynd os nad yw’n **hawdd gwneud popeth** yn y digwyddiad.



Dylai lleoliadau fod yn onest ynghylch pa mor **hawdd gwneud pethau** yw digwyddiad. Fel bo pobl ddim yn gwastraffu amser yn mynd yno.

## Digwyddiadau y buasai pobl anabl yn eu mwynhau



Fe ofynnon ni i bobl anabl pa ddigwyddiadau yr hoffen nhw fynd iddyn nhw.



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y buasen nhw'n hoffi mwy o ddigwyddiadau celfyddyd ar-lein.

Ond sonion nhw hefyd am weithgareddau a digwyddiadau eraill y buasen nhw'n eu hoffi. Er enghraifft:






- dawns
- theatr, sioeau cerdd, ac opera
- darlleniadau a barddoniaeth
- digwyddiadau sy'n cynnwys Pobl Anabl
- celfyddydau gweledol a dosbarthiadau
- ffilmiau gydag is-deitlau



## Beth fyddai'n gwneud amgueddfeydd yn well

Nid yw amgueddfeydd mor boblogaidd â digwyddiadau celfyddyd.

Fe ofynnon ni i bobl beth fuasai'n gwneud iddyn nhw ymweld â mwy o amgueddfeydd. Dywedson nhw:




- petai mwy o sgyrsiau oedd yn eu cynnwys nhw

- petai mwy o weithgareddau yn ymwneud â'u synhwyrau. Fel arogli, cyffwrdd, gweld, clywed, a blasu



- petai gweithgareddau ar-lein.




Dywedodd llawer o bobl y buasen nhw'n hoffi unrhyw beth cyn belled â'i fod yn **hawdd gwneud popeth**.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf



Mae gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** lawer o waith i'w wneud.



Mae arnyn nhw angen i bobl anabl ddod i ymddiried ynddyn nhw. A phrofi eu bod yn **gynhwysol**.



Mae arnyn nhw angen gwneud celfyddydau Cymru yn **hawdd ym mhob ffordd**.



Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Genedlaethol Cymru** weithio'n agos gyda Byddar, pobl â sefydliadau colli clyw ac anabledd. A gyda phobl anabl.




Trwy weithio gyda'i gilydd gallan nhw wneud celfyddydau Cymru yn fwy **cynhwysol** a **hawdd eu gwneud**.

# Syniadau i wneud pethau'n well

## Technoleg



Fe ofynnon ni i bobl anabl am syniadau i wneud pethau'n well.



Roedden nhw'n dweud y gallai technoleg wneud digwyddiadau yn fwy **hawdd cymryd rhan**.

**Er enghraifft:**



- Cael offer sy'n cynnwys pob diwyg **hawdd ei ddefnyddio**. Er enghraifft, llechen sydd â Iaith Arwyddion Prydain, sgriptiau, a disgrifiadau clywedol.



- Mae ar ddolenni clywed angen cael eu diweddaru.




- Cael cysylltau at wybodaeth **hawdd ei deall** ar bob gwefan a thaflen. Neu gael un gwefan gyda phob digwyddiad **hawdd eu deall** wedi'u rhestru.



- Cael swyddogaeth sgwrsio Iaith Arwyddion Prydain ar wefannau.

## Gwell cynllunio



Dywedodd pobl anabl y byddai'n dda cael digwyddiadau **hawdd gwneud pethau** yn rheolaidd. Er enghraifft, ar yr un dydd bob mis.



Yna byddai pobl yn gwybod pryd y byddan nhw'n cael eu cynnal. A byddai pobl yn teimlo'n sicr y byddai eu hanghenion yn cael eu cwrdd.



Dylai lleoliadau gael eu holl ddigwyddiadau **hawdd gwneud pethau** ymlaen ar yr un adeg. Fel bo ffrindiau sydd ag anghenion gwahanol yn gallu mynd ar yr un pryd.




Dylai bod mwy o ddigwyddiadau **hawdd gwneud pethau** yn lleol. Oherwydd mae teithio i ddigwyddiadau yn anodd.

## Hyfforddiant staff



Mae rhai aelodau o staff yn dda am fod yn **gynhwysol**. Ond mae rhai sydd ddim yn dda.




Mae ar yr **holl** staff angen hyfforddiant ynghylch sut i fod yn fwy **cynhwysol**. A sut i gefnogi gwahanol anghenion.



Dylai hyfforddiant gael ei wneud yn rheolaidd. Fel bo pobl yn cadw gyda'r oes. Dylai hyfforddiant fod yr un fath ym mhob man.



Dylai bod mwy o bobl anabl yn gweithio ac yn gwirfoddoli yn y celfyddydau.



Gall pobl anabl ddysgu staff sut i fod yn fwy **cynhwysol**.

## Cynnwys pobl anabl yn y celfyddydau



Byddai’n dda petai pobl anabl yn cael eu gweld mwy yn y celfyddydau. Er enghraifft, mewn dramâu. Neu mewn gwaith celf.



Dylai pobl anabl gael help i weithio yn y celfyddydau.



Dylai hyfforddiant yn y celfyddydau a diwylliant fod yn fwy **hawdd cael gafael** arno ar gyfer pobl anabl.



Dylai llawer mwy o bobl gael eu hyfforddi mewn Iaith Arwyddion Prydain. Gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.



Dylai Iaith Arwyddion Prydain ddod yn drydedd iaith yng Nghymru.

# Geiriau anodd

## Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wneud gwahanol bethau.

## Awtistiaeth

Awtistiaeth yw'r gair byr am Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Pan fydd awtistiaeth ar rywun byddwn yn dweud eu bod yn awtistig.

## Cyfathrebu'n ddieiriau

Mae pobl sy'n cyfathrebu'n ddieiriau yn bobl sydd ddim yn siarad. Er enghraifft, efallai y byddan nhw'n rhoi gwybodaeth i chi trwy ddefnyddio symbolau. Neu trwy ddefnyddio offer arbennig.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a bod gan bawb gyfle teg.

## Hawdd eu gwneud

Mae hawdd eu gwneud yn cynnwys llawer o wahanol bethau. Fel symud o un lle i'r llall, defnyddio pethau a deall pethau sy'n cael eu dweud neu eu hysgrifennu.

## Niwroamrywiol

Mae pobl niwroamrywiol yn bobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd amrywiol.